# Ysgol Sant Curig

Heol y Coleg, Y Barri, CF62 8HQ
01446 744222
ysantcurig@valeofglamorgan.gov.uk
www.ysgolgymraegsantcurig.com

## Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni 2016/2017

Annwyl Riant

Yn unol â Deddf Addysg (Rhif 2 1986) mae'n rhaid i ni fel Corff Llywodraethu gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni, sydd yn amlinellu ein gwaith a'n gweithgareddau. Nid yw hi'n ofynnol mwyach i gynnal cyfarfod agored i drafod yr adroddiad, ond os ydych yn dymuno gwneud hynny, yna cysylltwch â swyddfa'r Ysgol i drafod ymhellach.

**Cynnwys**

1. Cyfarchiad y Cadeirydd
2. Llawlyfr yr Ysgol
3. Digwyddiadau a Champau/Chwaraeon
4. Eisteddfod
5. Gweithio Gydag Eraill
6. Mwy Abl a Thalentog
7. Cynllun Datblygu'r Ysgol – Blaenoriaethau 2016/2017
8. Bwrdd y Llywodraethwyr a Polisiau
9. Aelodau Staff / Trefn Dosbarthiadau/ Sesiynau Ysgol
10. Elusennau
11. Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu
12. Bwyta'n Iach
13. Addysg Uwchradd
14. Trefniadau Pontio
15. Cysylltiad â'r Gymuned
16. Athrawon
17. Anghenion Dysgu Ychwanegol
18. Blaenoriaethau 2017/2018
19. Canlyniadau 2016/2017
20. Presenoldeb 2016/2017
21. Cyllideb yr Ysgol
22. Adeilad yr Ysgol
23. Tai Bach
24. Yr Ardd Wyllt
25. Cyfleusterau Chwaraeon
26. CRhAfFf
27. Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2017/2018

## 1. **Cyfarchiad y Cadeirydd**

Fel Cadeirydd newydd i Lywodraethwyr ein hysgol mae'n rhoi pleser mawr i mi gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 16/17. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ystadegau ynghyd a throsolwg o ddigwyddiadau o bwys. Yn ychwanegol, cewch wybodaeth am fywyd yr Ysgol, ei harwienyddiaeth a uchabwyntiau'r flwyddyn.

Ar ran Corff Llywodraethol yr Ysgol hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Andrew Humphreys ein cyn-Gadeirydd am ei holl waith er budd yr Ysgol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae Mr Humphreys yn parhau i wasanaethu'r Ysgol fel llywodraethwr cymunedol ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol.

Cafodd yr Ysgol flwyddyn hynod o lwyddiannus unwaith yn rhagor gyda chanlyniadau ardderchog ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol. Mae'r Ysgol wedi canolbwyntio yn ystod y flwyddyn ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGaCh yn ogystal ag agweddau penodol o asesu ar gyfer dysgu.

Rwyf yn hynod balch o deulu Ysgol Sant Curig sydd yn gweithio'n galed iawn tuag at ddatblygu cryfderau yn mhob plentyn boed hyn drwy ddigwyddiadau chwaraeon, gwasanaethau dosbarth, cyngherddau Nadolig, ymweliadau addysgiadol, ymweliadau preswyl a chlybiau wedi Ysgol. Mae hyn oll yn cyfoethogi profiadau pob un disgybl.

Rwyf yn cydnabod ac am ddiolch yn fawr iawn i'r holl aelodau staff am ei ymroddiad a'u gwaith ardderchog tuag at cyflawni holl lwyddiannau'r Ysgol. Rwyf yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth rydym yn ein derbyn ganddoch chi ein rhieni ac edrychaf ymlaen at gyd-weithio er mwyn sicrhau'r addysg gorau posib i holl blant yr Ysgol.

## 2. **Llawlyfr yr Ysgol**

Mae copi llawn o lawlyfr yr Ysgol ar gael o'r brif swyddfa. Caiff y llawlyfr ei ddiweddaru'n flynyddol a bwriadwn ei ail hysgrifennu yn ystod y flwyddyn academaidd 2018 / 2019.

## 3. <u>Digwyddiadau a Champau / Chwaraeon</u>

Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd nifer o weithgareddau all-gyrsiol gan gynnwys Clybiau wedi ysgol (e.e. Coginio, Garddio, Rygbi, Traws Gwlad, Pêl-Droed, Gymnasteg, Celf, Cyfrifiaduron, Darllen, Dawnsio, Sgiliau Pêl, Gwyddoniaeth a Datrys Problemau), Dathliadau Diolchgarwch, Gwasanaethau Nadolig, Pasg ac Ewyllys Da ac Eisteddfod yr Urdd.

**Yn ogystal:**

- Teithiodd disgyblion Blwyddyn 6 i Abernant a disgyblion Blwyddyn 5 i Langrannog am wythnos.
- Ail-gylchwyd cardiau Nadolig unwaith yn rhagor.
- Roedd Wythnos Fusnes Blwyddyn 6 yn llwyddiannus iawn eto eleni a gwnaethpwyd elw o £400. Defnyddiwyd yr elw i ariannu ymweliad Blwyddyn 6 â Bae Caerdydd gydag amser i fwynhau gêm o bowlio deg a phryd o fwyd.
- Aeth disgyblion yr ysgol ar ymweliadau i'r Amgueddfa Trafnidiaeth yn Llundain, Canolfan Gofod Cenedlaethol yng Nghaerlyr, Pwll Nofio Cenedlaethol Rhyngwladol, Pwll Mawr, Morglawdd Caerdydd, Parc Porthceri, Sŵ Arch Noa, Sain Ffagan, Traeth Ynys y Barri ar gyfer "Hit the Surf"ac Amgueddfa y 1940au Abertawe.

Bu disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn sawl cystadleuaeth chwaraeon a buont yn llwyddiannus mewn sawl maes, gan gynnwys:

- Nifer o gystadlaethau pêl-droed i fechgyn.
- Gwyl Athletau'r Urdd.
- Mabolgampau'r Ysgol.
- Gymnasteg – Tumble and Vault. Cynrichioli Caerdydd a'r Fro mewn cystadleuaeth cenedlaethol Cymru a Phrydain.
- Cystadlaethau traws gwlad yr Urdd.
- Cystadleuaeth nofio'r Urdd.
- Gwersi nofio i ddisgyblion blynyddoedd 4 a 6.
- Gŵyl Griced yr Urdd.

## 4. Eisteddfod

Cafodd ein disgyblion y cyfle i gystadlu ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod yr Ysgol eto eleni.  Roeddent yn llwyddiannus yn y cystadlaethau canlynol:

- Y Parti Deulais
- Y Parti Unsain - ail yn genedlaethol
- Deuawdau
- Unawdau
- Llefaru unigol
- Côr
- Llwyddiant arbennig yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd
- Cogurdd (cystadleuaeth coginio)

## 5. Gweithio gydag eraill

- Mae'r ysgol yn rhan o Gymunedau Dysgu Proffesiynol Rhifedd, Llythrennedd, a Digidol ac mae'r Ysgol wedi elwa'n llawn o'r gwaith sydd wedi digwydd er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu ein disgyblion.
- Rydym wedi elwa o'r profiadau gwerthfawr a gafwyd o fod yn aelod o Grŵp Gwella Ysgolion (SIG). Gweithiodd aelodau o staff ein hysgol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg o wahanol Siroedd y Consortiwm ar amrywiaeth o themâu e.e. Addysgeg, Ysgrifennu a Rhifedd a lles.
- Mae'r Ysgol yn aelod o Federasiwn Ysgolion Cymraeg y Consortiwm (Merthyr, Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont, Bro Morgannwg a Caerdydd).
- Cymerodd yr Ysgol ran yng Ngŵyl Fach y Fro a drefnywyd gan Menter Bro Morgannwg gydag ysgolion Cymraeg Sir Bro Morgannwg.
- Mae gweithgareddau Meddwlgarwch ein hysgol wedi bod yn llwyddiant yn yr adran Sylfaen ac mae'r adnodd wedi ei rhannu gydag ysgolion y Consortiwm.

## 6. Gweithgareddau ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Mwy Abl a Thalentog

- Cafodd ein Mathemategwyr talentog y cyfle i gystadlu yng nghystadleuaeth 'Mathemategwyr Mawreddog' rhwng ysgolion Cymraeg Sir Bro Morgannwg a chynhaliwyd diwrnodau i flynyddoedd 3-6 er mwyn cyd-weithio gyda Mathemategwyr dawnus ysgolion ein clwstwr.
- Cynhaliwyd diwrnodau ar gyfer ysgrifenwyr dawnus.
- Dewiswyd arweinwyr ymysg ein disgyblion i fod yn aelodau o'r Cyngor Ysgol, Cyngor ECO a'r Cyngor Chwaraeon.
- Trefnwyd sawl gweithgaredd i'n disgyblion sy'n serennu ar y maes chwaraeon.
- Cynhaliwyd gweithgareddau ymestynnol yn ystod amser cinio, dwy waith yr wythnos er mwyn herio ein disgyblion mwy abl yn y pynciau craidd.
- Cafodd ein arlunwyr dawnus y cyfle i weithio gydag arlunwyr dawnus o ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg ar y thema 'Glan y Mor'.

## 7. <u>Blaenoriaethau ac Adolygiad Cynllun Datblygu Ysgol 2016/2017</u>

| Blaenoriaeth | Meini Prawf Llwyddiant | Arfarniad |
|---|---|---|
| Codi safonau darllen – cynyddu nifer y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch. | • 50% o ddisgyblion blwyddyn 6 yn cyrraedd L5 darllen yn y ddwy iaith.<br>• 25% o fechgyn blwyddyn 6 yn cyrraedd lefelau uwch darllen (L5) ar ddiwedd y flwyddyn.<br>• 40% o ddisgyblion bl 2 yn cyrraedd deilliant 6 iaith. | • 50% o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi cyrraedd L5 darllen yn y ddwy iaith.<br>• 25% o fechgyn blwyddyn 6 wedi cyrraedd L5 darllen yn y ddwy iaith.<br>• 37.5% o ddisgyblion blwyddyn 2 wedi cyrraedd D6 iaith.<br>(41% o'r merched a 33.3% o'r bechgyn) |
| Sefydlu a datblygu darpariaeth Lles / maethu ar gyfer plant y Cam Sylfaen er mwyn gwella lles ein disgyblion a rhieni ac i godi safonnau yn y pynciau craidd.<br><br>Parhau i ddatblygu'r dosbarth Lles yng Nghyfnod Allweddol 2. | • Gwelliant sylweddol ar y ' BOXALL PROFILE ANALYSIS'. O leiaf 20% o blant i wella mewn 2 llinyn neu'n fwy (20%) mewn un tymor.<br>• INCERTS i ddangos gwelliant o ½ lefel rhwng Medi a Gorffennaf. | • Dadansoddiad BOXALL yn dangos bod 80% o blant wedi gwella'n sylweddol mewn gweithgareddau datblygiadol a 60% wedi gwella'n sylweddol mewn gweithgareddau deiagnostig.<br>• Dengys hyn gwelliant mewn hunan ymwybyddiaeth, canolbwyntio, llai o agwedd negyddol, gwell hunan werth a gwelliant mewn perthynas ag eraill.<br>• <u>INCERTS</u><br>Gwelliant uwch na'r disgwyl. 1.26 lefel o gynnydd. Ar gyfartaledd gwnaeth digyblion CA2 gynydd 0 0.6 mewn llafar Cymraeg sydd yn uwch na'r cynydd digwyliedig.<br>• Dywed athrawon bod y plant yn fwy emosiynol ddiogel yn y dosbarth. |

| | | |
|---|---|---|
| Canfyddiadau monitro Rhifedd yn dangos bod angen sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth o sgiliau Rhifedd ar draws y Cwriciwlwm. Sicrhau tystiolaeth cyson o Rifedd yn cael ei ddefnydddio ar draws y Cwriciwlwm. Ymateb i ymholiad Cymheiriaid. | • Disgyblion yn hyderus yn defnyddio gwahanol agweddau o rifedd ar draws y Cwriciwlwm. Tystiolaeth wythnosol yn llyfrau thema a chynllunio. | • Wrth fonitro cynlluniau wythnosol gweler bod cyfleoedd ar gyfer tasgiau Rhifedd ar Draws yn cael eu rhoi i'r disgyblion.<br>• Cynhaliwyd HMS Rhifedd ar Draws gyda'r staff dysgu yn nhymor yr Hydref.<br>• Cynhaliwyd HMS 'Ffair Graffu' lle cafodd staff gyfleoedd i edrych ar lyfrau thema a chasglu syniadau a nodi arfer dda ar draws yr ysgol.<br>• Mae enghreifftiau rheolaidd o waith Rhifedd ar draws yn llyfrau'r disgyblion .<br>• Ar ol monitro trafod a phlant darganfyddwyd bod y plant yn teimlo mwy hyderus yn defnyddio eu sgiliau rhifedd ar draws y cwriciwlwm.<br>• Mae sticeri rhifedd yn cael eu gosod yn y llyfrau i nodi enghreifftiau o waith Rhifedd ar draws. |
| Gwella a chysoni safonau asesu. Trwy edrych ar safonau Asesu ar Gyfer Dysgu yr ysgol. | • 100% o aelodau staff wedi symud o leiaf 1 cam i fyny yn y 'Golden Spiral Asesu ar Gyfer Dysgu' mewn agweddau 5:3, 5:5, 5:7, 5:8 a 5:9<br>• Tystiolaeth o dargedau unigol yn llyfrau'r plant.<br>• Defnydd effeithiol o gwestiwn gwyrdd yn amlwg.<br>• Defnydd cyson o bolisi marcio'r ysgol.<br>• Tystiolaeth amlwg, gyson o hunan asesu ac asesu cyfoedion yn llyfrau'r plant | • 100% o aelodau staff wedi symud i fyny o leiaf 1 cam ar y 'Golden Spiral AAGD' ymhob agwedd.<br>• Tystiolaeth o dargedau unigol plant yn y llyfrau gwaith. Gweler tystiolaeth hefyd yn y ffeil AAGD.<br>• Defnydd effeithiol o'r cwestiwn gwyrdd i'w weld mewn llyfrau disgyblion, er bod angen cysoni hyn rhywfaint.<br>• Defnydd cyson o bolisi marcio'r ysgol, gweler gopiau o'r cynllun mewn llyfrau ac mewn dosbarthiadau athrawon.<br>• Tystiolaeth o hunan asesu ac asesu cyfoedion ar gael yn llyfrau gwaith y plant a hefyd mewn ffeil tystiolaeth AAGD Mr Rh Jones. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol i'r athrawon a'u prif egwyddorion. | • Staff yn ymateb yn gadarnhaol ac yn dangos eu bod yn deall fel i fynd ati i ddechrau dod yn gyfarwydd â'r Fframwaith.<br>• Athrawon i gynllunio gwiethgareddau pythefnosol. | • Athrawon yn teimlo yn gyfforddus wrth ddechrau deall llinynnau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a'i berthnasedd. Tystiolaeth i'w weld ym mhob dosbarth.<br>• Yn dilyn HMS, mae bob aelod o staff yn cynllunio gweithgareddau pythefnosol ar gyfer y fframwaith digidol. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd 'e-ddiogelwch' gyda'r staff a'r dysgwyr. | Pob aelod o staff i gynllunio o leiaf un weithgaredd e ddiogelwch bob hanner tymor. | Mae tystiolaeth bod gweithgareddau e ddiogelwch yn digwydd ym mhob blwyddyn ysgol bob hanner tymor. |
| Ethol Dewiniaid Digidol ar gyfer 2016-2017.<br>Hyfforddi arweinydd digidol a chreu amserlen cefnogaeth. | Arweinwyr digidol yn medru cefnogi athrawon a chynorthwywyr. | Arweinwyr digidol wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ac yn medru cefnogi a chynnig arweiniad i eraill. |

## 8. Bwrdd y Llywodraethwyr a Pholisiau

Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am reoli'r ysgol yn effeithiol. Pedair blynedd yw cyfnod swydd arferol Llywodraethwr ac mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethu llawn i'w weld isod. Cynhaliwyd cyfarfodydd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethu'n cyflawni ei dyletswyddau statudol. Ymgymerodd y Llywodraethwyr ag ystod o weithgareddau hyfforddi a datblygu gan gynnwys rheoli cyllid, iechyd a diogelwch, effeithiolrwydd egni, canllawiau gwrth fwlio, rheoli perfformiad, rheoli gwaharddiadau yn ogystal â mynychu'r Gynhadledd Flynyddol ar gyfer Llywodraethwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael am rôl y Corff Llywodraethol, y cyfarfodydd hyfforddiant a datblygu a fynychwyd a chofnodion y cyfarfodydd ar gael gan glerc ein Llywodraethwyr.

Trafodwyd amrywiaeth o agweddau gan gynnwys gweithgareddau Ysgol, cyllid Ysgol, nod ac amcanion yr Ysgol, adroddiadau'r Pennaeth a chynlluniau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau newydd yng Nghyfnod Allweddol 2. Adolygwyd datblygiad Cynllun Datblygu Ysgol yn rheolaidd ac fe ddarparwyd diweddariad ohono gogyfer â phob cyfarfod.

Mabwysiadwyd ystod llawn o bolisiau yn ystod y flwyddyn a chant eu hadolygu yn ôl yr amserlen. Cedwir bob polisi ar safle'r Ysgol.

**Aelodau o'r Corff Llywodraethu 2016/2017**

| Rôl y Llywodraethwyr | Enw |
|---|---|
| Cadeirydd (Ysgol Sant Curig, Heol y Coleg,Y Barri, CF62 8HQ – 01446 744222) | Mr A Humphreys |
| Is-gadeirydd | Mrs B Owen |
| Pennaeth | Mrs S Owen |
| Rhiant Lywodraethwyr | Mr J Edwards, Mrs C Coombes, Mr L Mack, Miss E Sullivan,<br>Mrs B Williams, Mrs H Fitt, Mrs C Brown |
| Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Lleol | Mr D Horgan, Dr S Rh Williams<br>Mrs M Thomas, Mrs H Cooper |
| Cynrychiolwyr Staff | Mr R Jones (arsylwi'n unig)<br>Mrs N Thomas, Miss S Jones<br>Mrs R Lee, Mrs C Jones |
| Aelodau Cymunedol | Mr A Humphreys, Mrs B Owen, Mrs M Dodd |
| Clerc i'r Llywodraethwyr – (Ysgol Sant Curig, Heol y Coleg,Y Barri, CF62 8HQ – 01446 744222) | Miss B Hayward, Miss R Cox |
| Prif Swyddog Addysg<br>Pennaeth Ysgolion<br>MAR | Mrs J Hill<br>Mr G Glavin<br>Mrs C Curtis |

## 9. Aelodau Staff/Trefn Dosbarthiadau/Sesiynau Ysgol

| Aelodau Staff 2016 / 2017 | |
|---|---|
| **Pennaeth** | Mrs S Owen |
| **Dirprwy Bennaeth** | Mr R Jones |
| **Athrawon** | Mrs J Griffiths, Miss N Davies<br>Miss J Bevan, Miss M Jones<br>Mr A Williams, Miss S Jones<br>Miss S Watkins, Miss C Lewis<br>Miss A Withey, Mrs C Walsh<br>Mrs E Morrison, Mrs L Weighell<br>Miss B Donaldson, Miss N Lewis, Mrs M Cross<br>Mrs N Thomas, Miss H Saar, Ms R Lloyd |
| **Gweinyddwraig Ysgol**<br>**Cynorthwywyr Gweinyddol** | Mrs N Hallett<br>Miss C Paget<br>Miss B Hayward |
| **Staff Cynnal Dysgu** | Mrs J Buckland, Mrs E Parry<br>Mrs C Jones, Miss S Jones<br>Mrs M Jones, Miss H Sparkes,<br>Mrs R Lee, Mrs H Ruck, Mrs J Bowen<br>Mrs C Willicombe, Mrs S Humphreys<br>Miss L Richards, Miss J Martin<br>Mrs S Jenkins, Miss Rh Carter<br>Miss K Press, Mrs M Williams<br>Mrs H Lewis, Miss J Cox |
| **Gofalwr** | Mr I Ellis |
| **Cynorthwywyr Cinio** | Mrs C Mason, Mrs C Roberts<br>Mrs J Thomas, Miss J Cox |
| **Y Gegin** | Mrs C Jones |
| **Athrawon Cerddoriaeth** | Mr S Napper, Mrs E Henry,<br>Mrs H Thomas, Mr D Davies, Mr L Bradshaw |

**Trefn Dosbarthiadau 2016/2017**

| | |
|---|---|
| **Meithrin** | Miss H Saar |
| **Derbyn** | Miss N Lewis<br>Mrs E Morrison / Mrs M Cross |
| **Blwyddyn 1** | Miss B Donaldson / Mrs L Delve<br>Mrs N Thomas |
| **Blwyddyn 2** | Miss A Withey / Ms R Lloyd<br>Mrs C Walsh |
| **Blwyddyn 3** | Miss J Bevan (cyfnod mamolaeth)<br>Miss N Davies |
| **Blwyddyn 4** | Miss S Watkins<br>Mr R Jones/Mrs L Weighell |
| **Blwydydn 5** | Mr A Williams<br>Mrs J Griffiths (cyfnod mamolaeth) |
| **Blwyddyn 6** | Miss M Jones<br>Miss S Jones |

**Sesiynau Ysgol**

| | | |
|---|---|---|
| **Bore** | 9.00yb - 11.30yb | (Meithrin) |
| | 8.55yb - 12.00yp | (Babanod) |
| | 8.55yb - 12.30yp | (Adran Iau) |
| **Prynhawn** | 12.45yp - 15.15yp | (Meithrin) |
| | 13.20yp - 15.20yp | (Babanod) |
| | 13.40yp - 15.20yp | (Adran Iau) |

**10. Cefnogwyd yr elusennau isod;**
'Comic Relief', Plant Mewn Angen, Marie Curie, Apêl y Pabi Coch, Ysbyty Felindre, Llamau, Macmillan a Banc Bwyd y Fro, 'Roald Dahl's Marvellous Charity'.

**11. Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu**

Prif iaith yr ysgol yw'r Gymraeg. Disgwyliwn i'r plant gyfathrebu yn y Gymraeg drwy'r amser heblaw mewn gwersi Saesneg. Dysgir pob gwers drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cydlynwyr yn gyfrifol am wahanol agweddau o'r cwricwlwm h.y. Mathemateg, Gwyddoniaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Celf a Chrefft, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth, Technoleg, TG ac Addysg Grefyddol. Cyflwynir Saesneg fel pwnc ym Mlwyddyn 3. Astudir amryw o themâu o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 gan sicrhau fod pob agwedd o'r cwricwlwm yn cael ei haddysgu. Dysgir Addysg Ryw fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Rydym hefyd yn defnyddio deunydd addysgu'r Cyngor Addysg Iechyd ar gyfer y plant hŷn. Os na chawn ein hysbysu'n wahanol gan rieni caiff Addysg Grefyddol ei addysgu mewn ffordd anenwadol gyda phob un yn mynychu gwasanaeth boreol. Fel rhan o'r cwricwlwm, caiff crefyddau eraill eu hastudio.

Asesir a thrafodir gwaith yn rheolaidd gan staff. Rydym yn trefnu nosweithiau agored dair gwaith y flwyddyn yn ystod Tymor yr Hydref, Gwanwyn a Thymor yr Haf i alluogi rhieni i drafod gwaith ei plentyn. Mae'r staff ar gael ar adegau eraill i gyfarfod â rhieni os oes angen.

**12. Bwyta'n Iach**

Anogir ein disgyblion i fwyta'n iach ar bob achlysur. Mae'r Ysgol yn aelod o Rwydwaith Ysgolion Iach Bro Morgannwg ac wedi derbyn clod am gyrraedd Cam 5. Caniateir i'n disgyblion yfed dŵr yn ystod gwersi er mwyn sicrhau nad ydynt yn sychedig. Caiff ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y cyfle i brynu ffrwyth yn ddyddiol a rhoddir diod o laeth am ddim iddynt bob dydd. Ni chaniateir i'n disgyblion fwyta byrbrydion melys, bwydydd llawn braster ac yn y blaen, yn ystod oriau ysgol.

**13. Addysg Uwchradd**

Mae gennym gysylltiadau ardderchog gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac mae athrawon cyswllt o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn i gwrdd â disgyblion a rhieni Blwyddyn 6 i'w cynorthwyo gyda'r pontio i'r ysgol uwchradd. Bu'r plant hefyd yn ymweld â'r Ysgol Uwchradd ar amryw o achlysuron, yng nghyd-destun chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol. Rydym yn gweithio ar y cyd gyda holl ysgolion Cymraeg y Fro ac YGBM i weithredu Cynllun Pontio Cynradd / Uwchradd. Cynhelir cyfarfodydd cyson er mwyn cyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd er mwyn sicrhau cysondeb mewn safonau.

**14. Trefniadau Pontio mewnol ein hysgol**

- Cynhelir cyfarfodydd croesawu rhieni newydd i blant Meithrin ein hysgol dair gwaith y flwyddyn.
- Cynhelir cyfarfodydd pontio o'r Derbyn i Flwyddyn 1, Blwyddyn 1 i Flwyddyn 2, Blwyddyn 2 i Flwyddyn 3, Blwyddyn 3 i Flwyddyn 4, Blwyddyn 4 i Flwyddyn 5 a Blwyddyn 5 i Flwyddyn 6 yn ystod hanner tymor olaf y flwyddyn academaidd.

**15. Cysylltiadau gyda'r Gymuned**

Mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Argyfwng megis yr Heddlu a'r Frigad Dân. Mae gennym raglen o ymweliadau gyda'n Heddwas Gymunedol sydd yn ymweld â phob dosbarth yn yr Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Trafodir agweddau megis diogelwch ar y ffordd, dieithriaid yn ogystal â chyffuriau a diogelwch ar y Wê.
Mae gennym hefyd gysylltiad agos â Chapel y Tabernacl a defnyddir Llyfrgell y dref yn achlysurol. Rydym yn ymweld â chartref gofal i'r henoed yn flynyddol i'w diddanu yn ogystal â chymryd rhan mewn gwasanaethau crefyddol lleol. Mae gan yr Ysgol gyswllt agos a Menter Bro Morgannwg a chymerodd ddisgyblion ein Cyfnod Sylfaen ran yng Nghŵyl Fach y Fro a chynhaliwyd ar Ynys y Barri.

**16. Athrawon**

Cynhaliwyd cyfarfodydd staff ar ôl ysgol yn wythnosol i drafod materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a bywyd bob dydd yr ysgol. Cynhaliwyd sawl gweithgaredd datblygiadol gan gynnwys hyfforddiant mewn swydd ar ddarllen a sillafu, agweddau o TGCh, monitro a thracio cynnydd disgyblion, ysgrifennu Cymraeg ar draws yr ysgol yn ogystal â ' addysg gwerthoedd, y Fframwaith digidol ac agweddau o rifedd ar draws y cwricwlwm. Cynrychiolwyd yr ysgol gan aelodau o staff mewn amryw o grwpiau clwstwr er mwyn sicrhau cysondeb addysgu a safonau mewn meysydd pwnc.

**17. Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Miss Charlotte Lewis oedd ein Cydlynydd Anghenion Arbennig (16/17). Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda rhieni ac amryw o asiantaethau allanol.
Mae'r Pennaeth wedi cynrychioli ysgolion Cymraeg Bro Morgannwg ar banel Anghenion Dysgu Ychwanegol y Sir.

## 18. Blaenoriaethau ar gyfer 2017-2018

### Blaeoriaethau Gwella 2017 / 2018

| | |
|---|---|
| 1 | **Dysgu digidol ar draws yr ysgol.**<br><br>Sicrhau cyfleoedd cyson ar draws yr ysgol i blant ddatblygu medrau digidol ar draws y Cwricwlwm. |
| 2. | **Llythrennedd.(Cymraeg)**<br><br>Datblygu a gweithredu cynllun er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb ar draws yr ysgol. |
| 3. | **Rhifedd ar draws yr ysgol:**<br><br>Parhau i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio rhifedd ar draws y Cwricwlwm gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd i ddefnyddio medrau digidol. |
| 4. | **Addysgu:**<br><br>Parhau i godi safonnau addysgu. |
| 5. | **Datblygu rôl y Llywodraethwyr**<br><br>Sicrhau bod Llywodraethwyr a holl rhanddeiliaid yr ysgol yn ystyried ystod lawn o dystiolaeth uniongyrchol wrth lunio cynlluniau gwella a gosod her i'r Ysgol. |
| 6 | **Siarter Iaith**<br><br>Cyrraedd gwobr Efydd. |

## 19. Profion Diwedd Cyfnod 2016/2017

**Cyfnod Sylfaen – Deilliant 5+ (y lefel disgwyliedig)**

| | Ysgol | Cymru |
|---|---|---|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol | 100% | 94.3% |
| Sgiliau Iaith | 94.5% | 90.6% |
| Datblygiad Mathemategol | 98.1% | 89.8% |
| Dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 94.5% | 87.0% |

**Cyfnod Sylfaen – Deilliant 6 (lefel uwch)**

| | Ysgol | Cymru |
|---|---|---|
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol | 76% | 58.8% |
| Sgiliau Iaith | 41.8% | 36.2% |
| Datblygiad Mathemategol | 43.6% | 36.3% |

**Cyfnod Allweddol 2 – Lefel 4+ (y lefel disgwyliedig)**

| | Ysgol | Cymru |
|---|---|---|
| Mathemateg | 96.2% | 91% |
| Gwyddoniaeth | 94.2% | 91.7% |
| Cymraeg | 90.4% | 90.8% |
| Saesneg | 90.4% | 90.3% |
| Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) | 90.4% | 88.6% |

**Cyfnod Allweddol 2 – Lefel 5+ (lefel uwch)**

| | Ysgol | Cymru |
|---|---|---|
| Mathemateg | 51.9% | 41.5% |
| Gwyddoniaeth | 53.8% | 42.3% |
| Cymraeg | 44.2% | 36.6% |
| Saesneg | 44.2% | 40.6% |

## 20. Presenoldeb 2015/2016

### Presenoldeb ar gyfer 2016/2017

| | |
|---|---|
| • Presenoldeb | 94.86% |
| • Absenoldebau gyda chaniatâd | 5.5% |
| • Absenoldebau heb ganiatâd | 0.7% |

Byddwn yn parhau i fonitro ac annog presenoldeb disgyblion yn ofalus iawn. Mae’r Llywodraethwyr hefyd yn annog rhieni i beidio â chymryd gwyliau yn ystod y tymor.

Defnyddiwyd cynllun CALLIO er mwyn hysbysu rhieni a gofalwyr o bresenoldeb eu plant.

**Target presenoldeb 2016/2017 - 96.5%.**

| Vale of Glamorgan Council School Outturn Report 2016/17 Revenue Summary | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cost Centre:101315 | Description:Ysgol Gymraeg Sant Curig | Period Name:2016/P12 | Budget Name:VOG 16/17 RE |
| | | | |
| | Level3 | **Annual Budget** | **Total Actual** |
| CUSTOMER RECEIPTS | CHARGE FOR SERVICE | 0.00 | -13,884.46 |
| | DONATIONS | 0.00 | -11,085.74 |
| | RENTAL INCOME | 0.00 | 0.00 |
| | SALE OF PRODUCTS | 0.00 | 0.00 |
| | | **0.00** | -24,970.20 |
| EMPLOYEES | GRANT EMPLOYEES | 200,620.00 | 202,179.05 |
| | INDIRECT EMPLOYEES EXPS | 12,563.00 | 12,563.00 |
| | NON TEACHING EMPLOYEES | 233,206.00 | 241,744.14 |
| | OTHER DIRECT EMPLOYEES | 3,500.00 | 6,037.84 |
| | SEG WEG EIG EMPLOYEES | 0.00 | 0.00 |
| | TEACHING EMPLOYEES | 854,172.00 | 844,841.28 |
| | | **1,304,061.00** | 1,307,365.31 |
| GOVERNMENT GRANT | OTHER GOVERNMENT GRANTS | 0.00 | -950.00 |
| | WG GRANTS | -213,706.00 | -191,052.83 |
| | | **-213,706.00** | -192,002.83 |
| INTERNAL RECHARGES EXPEND | INTERNAL RECHARGES EXPEND | 52,476.00 | 53,008.87 |
| | | **52,476.00** | 53,008.87 |
| INTERNAL RECHARGES INCOME | INTERNAL RECHARGES INCOME | -13,414.00 | -15,236.27 |
| | | **-13,414.00** | -15,236.27 |
| INTRA DEPARTMENTAL RECHARGE | SEG WEG EIG INCOME | 0.00 | 0.00 |
| | | **0.00** | 0.00 |
| OTHER GRANTS | INCOME FROM OTHER LAs/HAs | 0.00 | 0.00 |
| | | **0.00** | 0.00 |
| PREMISES | CLEANING AND DOMESTIC SUPPLIES | 48,200.00 | 48,897.23 |
| | ENERGY | 27,000.00 | 14,616.41 |
| | GROUNDS MAINTENANCE | 4,100.00 | 3,999.96 |
| | RATES | 15,917.00 | 15,917.00 |
| | REPAIRS & MAINT OF BUILDING | 15,000.00 | 14,002.60 |
| | WATER SERVICES | 7,200.00 | 7,125.31 |
| | | **117,417.00** | 104,558.51 |
| SUPPLIES AND SERVICES | CATERING | 0.00 | 123.00 |
| | COMMS AND COMPUTING | 6,700.00 | 6,549.63 |
| | EQUIP, FURNITURE & MATERIALS | 28,916.00 | 24,944.15 |
| | EXPENSES | 0.00 | 0.00 |
| | GRANTS & SUBSCRIPTIONS | 31.00 | 499.00 |
| | MISC EXPENSES | 22,520.00 | 1.28 |
| | PRINTING STATIONERY & OFFICE EXPS | 19,400.00 | 19,270.21 |
| | SEG WEG EIG SUPPLIES AND SERVICES | 2,468.00 | 3,118.00 |
| | SERVICES | 0.00 | 239.50 |
| | | **80,035.00** | 54,744.77 |
| TRANSFER FROM SCHOOL INVESTMENTS | SCHOOL INVESTMENTS REV | 0.00 | 0.00 |
| | | **0.00** | 0.00 |
| TRANSPORT | CAR ALLOWANCES | 160.00 | 330.00 |
| | DIRECT TRANSPORT COSTS | 0.00 | 0.00 |
| | SEG WEG EIG TRAVEL EXPENSES | 0.00 | 0.00 |
| | | **160.00** | 330.00 |
| | | 1,327,029.00 | 1,287,798.16 |

## 21. Cyllideb yr Ysgol - 2016/2017

Mae'r Corff Llywodraethu yn monitro cyllideb yr ysgol ac rydym yn hapus i gyhoeddi ein bod wedi cadw o fewn y gyllideb yn 2016/2017.

**22. Adeilad yr Ysgol**

Oherwydd anghenion cyllid eto eleni, fe flaenoriaethwyd adnoddau dynol ac nid ydym felly wedi cynnal gwelliannau mawr i'r adeilad. Mae gwaith cynnal a chadw wedi digwydd yn ôl yr angen e.e derbyniodd sawl ardal yn yr Ysgol sylw yn ôl yr angen e.e côt o baent i ambell ystafell ddosbarth ar lawr ucha'r Ysgol.

**23. Cyfleusterau Tai Bach**

Mae'r Ysgol yn cyflawni'r gofynion statudol ac mae gennym y nifer cywir o dai bach ar gyfer y nifer o blant sydd yn yr Ysgol. Caiff y tai bach eu glanhau'n ddyddiol gan dîm glanhau'r Sir ac rydym yn monitro eu cyflwr yn rheolaidd. Gwnaed llawer o waith eleni er mwyn cynnal safon boddhaol ein tai bach ond rydym yn rhagweld y bydd angen adnewyddiad mawr cyn hir. Amsrelennwyd gwaith i osod tai bach nwydd i'r Adran Iau i ddigwydd yn ystod gwyliau'r haf 2017.

**24. Yr Ardd Wyllt**

Mae gwaith datblygiadol Mrs Meriel Jones ar safle ein gardd wyllt wedi parhau eto eleni, ac mae holl ddisgbylion yr Ysgol wedi mwynhau paratoi'r ardd a phlannu ar gyfer y tymhorau i ddod.

**25. Cyfleusterau Chwaraeon**

Mae holl blant yr Ysgol wedi gallu manteisio ar y cyfleusterau allanol ar gyfer chwarae yn ogystal â chymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a chystadleuthau. Mae cwmni Cynnal a Chadw Ardaloedd Allanol yn ymweld â'r Ysgol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cyflwr y cyfleusterau allanol e.e. ffram ddringo.

**26. CRhAFf**

Mae'n dristwch nodi y daeth gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i ben ar ddiwedd 2017. Buom fel Llywodraethwyr yn cefnogi'r Ysgol mewn ymchwilio i materion ariannol y Gymdeithas ac wedi achos llys, penderfynnwyd i beidio parhau fel cymdeithas.

Hoffwn ar ran y Llywodraethwyr a'r Ysgol ddiolch yn fawr i aelodau'r gymdeithas a fu'n gweithio'n galed ar hyd y blynyddoedd i godi arian er lles yr holl ddisgyblion.

**27. Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2017/2018**

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer Dyddiau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | Diwrnodau |
| **Hydref 2017** | Dydd Llun 04/09/17 | Dydd Llun 30/10/17 | Dydd Gwener 03/11/17 | Dydd Gwener 22/12/17 | 75 |
| **Gwanwyn2 018** | Dydd Llun 08/01/18 | Dydd Llun 19/02/18 | Dydd Gwener 23/02/18 | Dydd Iau 29/03/18 | 54 |
| **Haf 2018** | Dydd Llun 16/04/18 | Dydd Llun 28/05/18 | Dydd Gwener 01/06/18 | Dydd Mawrth 24/07/18 | 66 |
| | | | | **TOTAL** | **195** |